



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder

Ffurflen Gofnodi

1. Eich manylion cyswllt Arweinydd Polisi

1.1. Enw / Teitl Swydd

Catrin Davies – Policy Lead

1.2. Adran / swyddfa / maes busnes

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

1.3. Rhif ffôn

0300 025 0037

1.4. Cyfeiriad e-bost

Catrin.davies@gov.cymru

1.5. a) Dyddiad cyflwyno'r ffurflen hon

Dyddiad Cyflwyno:
18 Ionawr 2018

1.6. b) Pryd y mae angen ymateb?

Cais am Ymateb erbyn:
28 Chwefror 2018

2. Manylion cyswllt eraill

2.1. Swyddog Cyswllt Cyfreithiol

2.2. Rhif ffôn

2.3. Cyfeiriad e-bost

3. Gwybodaeth gyffredinol

- 3.1. Darparwch a) fanylion cyswllt eich swyddog arweiniol ar gyfer gwerthuso'r costau neu'r arbedion
b) yr arweinydd Polisi Cyfiawnder os yw'n hysbys.



- 3.2. Yn fras, beth yw eich cynnig? (dim mwy na hanner tudalen) *(Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu i helpu swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddeall bwriad y newid arfaethedig er mwyn gallu rhoi sylwadau llawn ar yr effeithiau posibl).*

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Bil gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant ar gyfer plant cymwys i rieni sy'n gweithio. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau ynghylch gweinyddu a gweithredu trefniadau a wneir gan Weinidogion Cymru at ddibenion darparu'r cyfryw gyllid. Yn unol â'r pŵer hwn, bwriedir gwneud darpariaeth mewn rheoliadau i hwyluso'r gwaith o rannu data sy'n berthnasol i ddatblygu system genedlaethol ar gyfer gwneud ceisiadau a gwirio cymhwysedd mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru ("y Cynnig"). System ar-lein fydd hon yn bennaf, er y bydd modd cyflwyno ceisiadau all-lein, gyda llinell gymorth ddynodedig ar gael.

Prif ffocws y Bil yw sicrhau bod modd casglu ac ystyried data sy'n berthnasol i benderfynu ar gymhwysedd rhywun i gael y Cynnig. I'r perwyl hwnnw, y bwriad yw y bydd rheoliadau a wneir o dan y Bil yn ei gwneud hi'n bosibl i adrannau perthnasol Llywodraeth y DU rannu gwybodaeth gyda Gweinidogion Cymru at y diben o bennu cymhwysedd rhywun ac i drosglwyddo ymlaen data a phenderfyniadau perthnasol fel sy'n ofynnol. Mae'r Bil hefyd yn caniatáu gwneud trefniadau ar gyfer cyflwyno cosbau mewn sefyllfaedd lle mae ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu'n ymddwyn yn anonest. Rhaid i reoliadau a wneir o dan y Bil ddarparu trefniadau i ymgeiswyr ofyn am adolygu cosb neu benderfyniad a wnaed am eu cymhwysedd, a sefydlu proses ar gyfer apelio yn erbyn cosb neu benderfyniad am gymhwysedd.

Y bwriad yw i'r system ymgeisio a gwirio cymhwysedd a'r gweithdrefnau adolygu ac apelio cysylltiedig mewn perthynas â'r Cynnig ar gyfer Cymru efelychu'r trefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn Lloegr. Mae system ymgeisio a gwirio cymhwysedd ar gyfer y Cynnig yn Lloegr yn cael ei gweinyddu gan CaThEM a Llywodraeth Cymru ac mae swyddogion CaThEM yn ymwneud yn agos â'r gwaith o ddatblygu'r Bil.

- 3.3. Nodwch deitlau'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Sut ydych chi'n disgwyl i ddarpariaethau perthnasol y ddeddfwriaeth (newydd) hon gael eu rhoi ar waith?

Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol, bydd darpariaethau perthnasol y Bil yn cael eu cychwyn drwy Orchymyn. Bydd Rheoliadau a wneir o dan y Bil yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn gadarnhaol. Bydd cynllun gweinyddol yn cael ei sefydlu ochr yn ochr â'r rheoliadau.

- 3.4. Nodwch erbyn pa ddyddiad y byddwch yn disgwyl a) i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym, b) y dyddiad y bydd yr effaith gyntaf a ragwelir ar y system gyfiawnder yn digwydd.

a) Mae disgwyl i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym yn ystod 2019 neu 2020 a bydd yr effaith ddisgwyliedig gyntaf ar y system gyfiawnder i'w gweld yn fuan wedyn yn ôl pob tebyg.

- 3.5. Os ydych yn diwygio neu'n cyflwyno trosedd, sancsiwn neu gosb, ar ba rai o'r grwpiau canlynol fydd y cynnig yn effeithio, ac ym mha amgylchiadau y bydd hynny'n digwydd? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Unigolion
 Sefydliadau Preifat (ee Busnesau)
 Sefydliadau Cyhoeddus (ee Adrannau'r Llywodraeth)

Bydd cosbau sifil yn cael eu cyflwyno i ymgeiswyr mewn sefyllfaoedd lle mae unigolion yn darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ac yn achos ymddygiad anonest mewn perthynas â'r broses o wneud cais.

Bydd CaThEM, yn gweithredu fel asiant Gweinidogion Cymru, yn derbyn ceisiadau ac yn pennu cymhwysedd ar gyfer y Cynnig. Bydd CaThEM hefyd yn gweithredu'r system o gosbau sifil y cyfeirir ati yn y paragraff uchod.

Cydnabyddir y gallai ymddygiad anonest ar ran rhiant sy'n ymgeisio ddod o fewn y diffiniad o dwyll at ddibenion Deddf Twyll 2005. Felly, mae darpariaeth wedi'i gwneud yn y Bil fel na fyddai rhywun sy'n cael ei ganfod yn euog o drosedd yn wynebu cosb ariannol yn rhinwedd y Bil.

- 3.6. A yw eich deddfwriaeth yn effeithio ar Gymru yn unig neu ydych chi'n cydweithio â gweinyddiaethau eraill? Ticiwch bob un sy'n berthnasol a darparwch fanylion bras fel sy'n briodol, gan gynnwys a fydd eich cynnig yn creu cyfreithiau gwahanol yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon.

Nodwch, ac eithrio'r tribiwnlysoedd datganoledig, fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweinyddu'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn unig. Siaradwch yn uniongyrchol ag uned ddatganoli'r Weinyddiaeth Gyfiawnder os ydych yn rhagweld y gallai eich cynnig effeithio ar y llysoedd neu'r carchardai yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon.


- Cymru yn unig
 Lloegr
 Yr Alban
 Gogledd Iwerddon
 Eraill (Nodwch)

Bydd y Bil arfaethedig yn darparu ar gyfer proses cosbau ac apelau yng Nghymru sy'n union yr un fath â'r broses sydd ar waith yn Lloegr ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

- 3.7. Os gallai eich deddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol ar y rheini sy'n ymweld â Chymru neu eraill nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru, neu os yw eich deddfwriaeth yn wahanol iawn i'r ddeddfwriaeth sydd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon;-
- a) pa drefniadau ydych chi wedi'u gwneud i sicrhau eich bod yn codi ymwybyddiaeth yn barhaus o'r ddeddfwriaeth wahanol mewn cysylltiad â'r mater hwn yng Nghymru?
 - b) beth fydd goblygiadau gweithredu yn erbyn unigolion nad ydynt fel arfer yn byw yng Nghymru ar yr asiantaethau gorfodi?

Amherthnasol

- 3.8. Beth yw'r opsiynau sy'n cael eu hystyried a sut y mae hyn yn newid y sefyllfa bresennol?



Mae pedwar opsiwn wedi cael eu hystyried mewn perthynas â datblygu proses ymgeisio a gwirio cymhwysedd genedlaethol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru, sef:

1. Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysedd, gydag apelau'n cael eu cyfeirio at un o'r Tribiwnlysoedd Datganoledig neu at Banel Apelau;
2. Mae pob Awdurdod Lleol yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysedd â llaw (opsiwn gwneud dim) ac yn sefydlu eu prosesau apelau eu hunain;
3. Mae trydydd parti dan gontract yn derbyn ceisiadau ac yn gwirio cymhwysedd ac yn sefydlu proses apelau;
4. Mae CaThEM yn gweinyddu ceisiadau a gwiriadau cymhwysedd ac mae apelau'n cael eu cyfeirio at Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (fel sy'n digwydd yn Lloegr gyda'r Cynnig)

Opsiwn 4 yw'r un a ffeirir a'r un sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r ateb mwyaf cost-effeithiol, cyson, effeithiol ac effeithlon. Mae Aseiad o'r Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal ar gyfer y Bil a'i gyhoeddi fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol.

Trefn cosbau arfaethedig

Rydym am ddilyn y drefn cosbau a nodir yn rheoliadau 25 i 32 Rheoliadau Gofal Plant (Darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar Am Ddim) (Hawl Estynedig) 2016.
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/1257/contents/made>

Rydym am alluogi ymgeiswyr i apelio yn erbyn cosb a gyflwynir gan CaThEM, neu swm y gosb honno, ar yr amod eu bod wedi defnyddio'r weithdrefn adolygu fewnol yn gyntaf. Bydd y weithdrefn honno'n cael ei gweithredu gan CaThEM ar ran Gweinidogion Cymru. Bydd unrhyw apêl yn cael ei chyfeirio at Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Apelau'n erbyn penderfyniad

Mae'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i alluogi ymgeisydd i apelio yn erbyn penderfyniad, ond dim ond os yw'r ymgeisydd hwnnw wedi defnyddio unrhyw "lwybr" adolygu mewnol. Gweler rheoliadau 20 i 24 o Rheoliadau Gofal Plant (Darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar Am Ddim) (Hawl Estynedig) 2016 am syniad o sut rydym yn rhagweld y byddwn yn gosod gofynion o'r fath.

Rydym am i'r llwybr apelio fod i Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Mantais hyn yw bod y llys hwnnw'n clywed apelau Gofal Plant Di-dreth hefyd, a fydd yn aml yn troi o amgylch yr un ffeithiau.

Rydym am i'r Tribiwnlys allu cefnogi'r penderfyniad neu ei ddileu a'i ddisodli gyda'i benderfyniad ei hun, mewn achosion lle mae'n canfod gwall mewn ffeithiau neu wall yn y gyfraith.

- 3.9. Os ydych yn creu cosb neu sancsiwn sifil newydd, pa lys neu dribiwnlys ddylai ddelio â hyn yn eich barn chi?

Gweler yr uchod

Troseddau a Chosbau a Sancsiynau Sifil

3.10. Pa un o'r canlynol ydych chi'n creu / diwygio? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Sancsiynau Sifil
- Cosbau Penodedig
- Gorchmynion Sifil
- Sancsiynau Troseddol
- Troseddau
- Eraill (Nodwch)

Mae'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau ar gyfer sefydlu system o gosbau sifil a allai gael ei defnyddio yn erbyn ymgeiswyr sy'n darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ac yn achos ymddygiad anonest mewn cysylltiad â chais.

Mae'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru sy'n cynnwys pŵer i greu troseddau troseddol mewn perthynas â datgelu o hynny ymlaen wybodaeth gymwys ac eithrio yn unol â'r Rheoliadau.

3.11. Os ydych yn creu trosedd, pa un o'r isod ydyw:

- Trosedd Ddiannod yn Unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron mainc o ynadon lleyg / barnwr yn unig)
- Trosedd Neillfordd
- Trosedd Dditiadwy yn Unig (yr achos yn cael ei glywed gerbron barnwr a rheithgor)

3.12. Pwy fydd yn gyfrifol am orfodi eich cynnig deddfwriaethol a sut y bydd yn mynd ati i fwrw ymlaen â'r rôl hon? A fydd llai o angen am gamau gorfodi?

Mae'r Bil yn cyfyngu ar y gosb ar gyfer unrhyw drosedd droseddol sy'n ymwneud â datgelu o hynny ymlaen wybodaeth fel na all unrhyw gosb o garchar yn achos euogfarn ar dditiad ragnodi cyfnod o fwy na 2 mlynedd yn y carchar (waeth a oes dirwy ai peidio).

Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan y Bil yn efelychu'r ddarpariaeth a wnaed mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant yn Lloegr yn rheoliad 19 o Reoliadau Gofal Plant (Darpariaeth Blynnyddoedd Cynnar Am Ddim) (Hawl Estynedig) 2016.

3.13. Sawl achos ydych chi'n rhagweld bob blwyddyn? Rhowch fanylion unrhyw dystiolaeth am y tybiaethau y mae'r amcangyfrifon yn seiliedig arnynt.

Mae CaThEM, sy'n gweinyddu'r cynllun yn Lloegr ar ran yr Adran Addysg ochr yn ochr â Gofal Plant Di-dreth (cynllun DU gyfan), wedi darparu gwybodaeth ar eu profiadau cynnar er mwyn helpu i werthuso'r anghenion tebygol ar gyfer y cynllun yng Nghymru. Mae'r polisi a'r systemau wedi'u llunio i'w gwneud hi mor hawdd â phosibl i rieni wneud popeth yn gywir, felly disgwylir i nifer yr apelau a chosbau fod yn isel. Hefyd, nid yw'n rhy lawdrwm gyda chosbau yn nyddiau cynnar y cynllun. Maent wedi dweud wrthym nad oes unrhyw gosbau sifil wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant yn Lloegr ers i'r cynllun ddod yn weithredol yn haf 2017. Mae disgwyl i nifer y cosbau fod yn isel wrth weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd. Mae CaThEM wedi cadarnhau hefyd nad oes cosbau troseddol wedi'u cyflwyno mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant na Gofal Plant Di-dreth yn Lloegr ers i'r system ddod yn weithredol yn haf 2017. Mae disgwyl i gosbau o'r fath fod yn brin iawn wrth weithredu'r cynlluniau o ddydd i ddydd.

Ymhellach, mae CaThEM wedi dweud wrthym fod nifer fach o apelau wedi cael eu clywed gerbron Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf mewn perthynas â chymhwysedd ar gyfer cynllun Lloegr ers i'r system ddod yn weithredol yn haf 2017.

Ni chafwyd unrhyw erlyniadau troseddol mewn perthynas â'r Cynnig yn Lloegr a byddem yn disgwyl i nifer y troseddwr sy'n cael eu dedfrydu i gyfnod yn y ddalfa o ganlyniad i'r darpariaethau yn y Bil hwn fod yn isel dros ben am resymau a esboniwyd yn gynharach.

Mae ffigurau tribiwnlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd wedi'u cyhoeddi yn dangos i 15 apêl gael eu derbyn hyd at ddiwedd chwarter 2 blwyddyn ariannol 2017/18 mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant 30 awr yn Lloegr.

Poblogaeth fach iawn sydd gan Gymru o gymharu â Lloegr (mae poblogaeth Cymru yn 5% yn unig o boblogaeth Cymru a Lloegr (Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2011)). Felly, yn gymesur â nifer yr apelau yn Lloegr a nodwyd uchod, gallem dybio y byddwn yn cael llai nag 1 apêl mewn cyfnod o chwe mis. Er y gallem ddisgwyl i'r nifer gynyddu wrth i'r rhaglen ennill ei phlwyf a bod mwy o bobl yn ymgeisio am y Cynnig, credir y bydd niferoedd yn parhau'n isel am rhesymau uchod.

3.14. Ydych chi'n disgwyl i'r achosion gael gwrandawriad mewn Llys Ynadon, Llys y Goron neu Lys Sifil? Beth fydd y cyfrannau?

Byddai mwyafrif llethol yr achosion yn cael eu clywed yn Llys y Goron.

3.15. Nodwch uchafswm y ddirwy a/neu gosbau o garchar perthnasol. Pan fo troseddau yn cynnwys cosbau o ddirwy neu gyfnod yn y carchar, nodwch ac eglurwch yr amgylchiadau a fyddai'n arwain at ddedfryd o garchar wedi'r euogfarn a chyfran y cosbau o garchar a fydd ar y lefel uchaf bosibl.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu trefn o gosbau sifil a fydd yn cael ei gweinyddu ar ran Gweinidogion Cymru gan CaThEM. Mae uchafswm y cosbau a gynigir os bydd ymgeiswyr yn darparu gwybodaeth anghywir, ffug neu gamarweiniol neu'n ymddwyn yn anonest fel a ganlyn:

Hyd at £300 am ddatganiadau anghywir.

Hyd at £500 am ddarparu gwybodaeth neu ddatganiadau ffug neu gamarweiniol.

Hyd at £3,000 am fod yn anonest.

Uchafsymiau yw'r rhain a bydd gan Weinidogion Cymru (CaThEM yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru) ddisgresiwn i roi cosb sifil is yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Mae'r Bil yn nodi na all rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n creu trosedd droseddol mewn perthynas â datgelu gwybodaeth o hynny ymlaen a wneir ar gyfer unrhyw gosb o garchar ar gael euogfarn ar dditiad ragnodi dedfryd o fwy na dwy flynedd o garchar (waeth a oes dirwy hefyd ai peidio).

Y ddarpariaeth yn ein rheoliadau ar gyfer cosb ar gael euogfarn ddiannod fyddai carchar am gyfnod o ddim mwy na 12 mis neu ddirwy, neu'r ddau (os caiff y drosedd ei chyflawni cyn cychwyn 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, dylid darllen y tymor o 12 mis fel cyfeiriad at 6 mis).

- 3.16. Rhowch fanylion unrhyw brocsi neu droseddau a / neu gosbau presennol y mae'r cosbau arfaethedig yn seiliedig arnynt.

Mae ein cynigion yn seiliedig ar y model sydd ar waith yn Lloegr ar hyn o bryd. Nodir manylion y cosbau uchaf yn rheoliadau 25 i 27 Rheoliadau Gofal Plant (Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar Am Ddim) (Hawl Estynedig) 2016 (mewn perthynas â'r cosbau sifil) a rheoliad 19 mewn perthynas â chosbau troseddol.

Bydd y Bil yn gwneud darpariaeth sy'n gydnaws â'r cosbau ar gyfer datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn anghyfreithlon sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005.

- 3.17. Rhowch fanylion y ddeddfwriaeth berthnasol (lle bo hynny'n briodol) a chadarnhewch a gytunwyd ar greu neu ddiwygio troseddau a chosbau yn unol â'r canllawiau sydd ar gael yma <https://www.gov.uk/government/publications/making-new-criminal-offences>.

Fel yn 6.2

Gweler hefyd adran 19 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005.

- 3.18. Beth fydd y goblygiadau tymor byr, tymor canolig a gydol oes i unigolyn a gaiff ei ganfod yn euog o'r drosedd hon, a sut y mae hyn yn gymesur â'r drosedd a grëwyd?

Fel y soniwyd eisoes, y bwriad yw i'r rheoliadau nodi y bydd unrhyw un sy'n cael ei ganfod yn euog o drosedd yn wynebu:

(a) o gael euogfarn ar dditiad, dedfryd o garchar am gyfnod o ddim mwy na dwy flynedd, dirwy, neu'r ddau, neu

(b) o gael euogfarn ddiannod, dedfryd o garchar am gyfnod o ddim mwy na 12 mis, dirwy heb fod yn fwy na'r uchafswm statudol, neu'r ddau.

Byddai unrhyw un sy'n cael ei ganfod yn euog o drosedd yn cael cofnod troseddol a gallai hyn effeithio ar allu unigolyn i gael gwaith tra pery'r cofnod hwnnw.

Gall unrhyw ddirwy a roddir achosi caledi ariannol i'r unigolyn yn dibynnu ar ei amgylchiadau a lefel y ddirwy a gyflwynir.

O ystyried natur bersonol a sensitif y wybodaeth y gallai fod angen ei datgelu at ddibenion pennu cymhwysedd i gael cyllid o dan y Cynnig Gofal Plant, bernir bod rhaid amddiffyn hawliau'r bobl y mae'r wybodaeth honno'n berthnasol iddynt. Bwriedir i'r cosbau arfaethedig yn y rheoliadau roi amddiffyniad o'r fath ac ystyrir eu bod yn gosb gymesur ar gyfer datgelu gwybodaeth o'r fath heb awdurdod.

3.19. A yw'r ddeddfwriaeth hon yn gosod unrhyw ddyletswydd ar y sector cyhoeddus? Os ydyw, darparwch eich asesiad o ba mor debygol ydyw i unigolion neu fusnesau weithredu yn erbyn y sector cyhoeddus am beidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

Amherthnasol

4. Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru

Amcangyfrif o'r newid i lwyth achosion y Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd (gan gynnwys triwlynlysoedd datganoledig)

4.1. A ydych chi'n disgwyl unrhyw newid i broses y Llysoedd neu'r Tribiwnlysoedd, neu gynnydd / gostyngiad yn nifer y ceisiadau / achosion i Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi a / neu Dribiwnlysoedd Cymru wrth greu neu ddiwygio'r gyfraith hon? Darparwch amcangyfrif o'r newid i nifer yr achosion fydd yn mynd drwy system y llysoedd yn gyffredinol, eglurwch unrhyw newidiadau i'r broses ac amlinellwch y dystiolaeth a'r ffynonellau sy'n cefnogi'r amcangyfrif hwn.

Nid ydym yn rhagweld prin unrhyw newid yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM o ystyried bod y drefn eisoes ar waith ar gyfer y Cynnig yn Lloegr. Hefyd, nid ydym yn disgwyl cynnydd mawr iawn yn nifer y ceisiadau/achosion i Lysoedd a Thriwlynlysoedd EM am resymau a eglurwyd yn gynharach.

Dim effaith ar Dribiwnlysoedd Cymru.

4.2. Cadarnhewch a fyddai'r llysoedd / triwlynlysoedd o dan ddyletswydd i roi gwybod i awdurdodau rheoleiddio am unrhyw euogfarnau o dan y drosedd hon.

- Na fyddent
 Byddent (rhoch fanylion)

Hawliau Apelio

- 4.3. A yw eich cynnig yn creu hawl newydd i apelio neu'n ymestyn awdurdodaeth bresennol yn y System Tribiwnlysoedd Unedig neu'r llwybr tuag at adolygiad barnwrol? Os ydyw, pwy fydd yn mynd i'r afael â'r rhain (hy a fyddant yn cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi neu gan Dribiwnlysoedd Cymru)?

Mae'r cynigion yn creu hawl newydd i apelio ar gyfer pobl sy'n ceisio manteisio ar y Cynnig yng Nghymru. Rhagwelir y bydd yr apelau'n cael eu cyflwyno i Siambr Hawliau Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf ac y bydd apelau'n cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn yr un modd ag y mae'n gweinyddu apelau a wneir mewn perthynas â'r Cynnig Gofal Plant yn Lloegr.

- 4.4. A ydych yn disgwyl sefydlu awdurdodaeth tribiwnlysoedd newydd? Os felly, a yw hyn wedi'i drafod ag Uned Tribiwnlysoedd Cymru / y Weinyddiaeth Gyfiawnder?

Amherthnasol

Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod

- 4.5. I ba raddau y byddai'n briodol defnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod (gan gynnwys cyfryngu)? Sut y bydd modd mesur llwyddiant y dull amgen hwn?

Amherthnasol

Erlyn a Gorfodi

- 4.6. Os ydych yn cynnig creu trosedd newydd, a fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn erlyn diffynyddion? Os na, nodwch pwy fydd yn erlyn.

Bwriedir i'r Gwasanaethau Erlyn y Goron erlyn diffynyddion.

- 4.7. A oes angen systemau gorfodi ar gyfer dyledion sifil, sancsiynau sifil neu gosbau troseddol ar gyfer y cynnig? Os oes, pwy ydych yn disgwyl y bydd yn eu gorfodi?

Nid yw'r Bil drafft yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth am orfodi cosbau a gyflwynir i ymgeiswyr sy'n darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ac yn achos ymddygiad anonest mewn cysylltiad â'r cais.

Fodd bynnag, y bwriad yw i'r rheoliadau, sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru o dan y pŵer yn adran 2 y Bil, wneud darpariaeth ar gyfer gorfodi cosbau sifil.

Rheolau Gweithdrefnol, Canllawiau Cosbau a Dedfrydu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

- 4.8. Ydych chi'n rhagweld y bydd rhaid diwygio rheolau gweithdrefnol y Llysoedd a/neu'r Tribiwnlysoedd? Os ydych, beth yw'r dyddiad tebygol ar gyfer y newidiadau hyn?

Mae'n bosibl y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r ffaith y byddai'r trefniadau cyfredol yn berthnasol i'r Cynnig yng Nghymru hefyd. Ein bwriad ar hyn o bryd yw cyflwyno'r system newydd ar gyfer Cymru fesul cam yn 2020.

- 4.9. A fydd angen diwygio'r canllawiau dedfrydu a / neu gosbau ar gyfer y cynigion?

Mae'n bosibl y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r cosbau troseddol i'w cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil mewn perthynas â Chymru. Ein bwriad ar hyn o bryd yw cyflwyno'r system newydd ar gyfer Cymru fesul cam yn 2020.



5. Cymorth Cyfreithiol a Ffioedd Llys

5.1. Pa dystiolaeth sydd y bydd modd i'r unigolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt fforddio:

- a) cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol er mwyn i'w hachos gael gwrandawriad teg
- b) ffioedd llys cysylltiedig

Pa gostau cyfreithiol a allai fod yn daladwy gan bob parti mewn achos cyffredin, a pha ddarpariaethau sy'n bodoli i barti sy'n cael ei ganfod yn ddiuog adennill yr holl gostau cyfreithiol neu ran o'r costau hynny?

Nid yw apelau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn dod o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol sifil ar hyn o bryd a dim ond drwy Gyllid Achos Eithriadol y gellid eu hariannu.

Ein hasesiad cyffredinol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol yw mai prin iawn fydd unrhyw effaith ar gymorth cyfreithiol troseddol.

5.2. Pan fydd eich cynnig ar waith, a yw'n debygol y bydd angen i unigolion geisio cyngor cyfreithiol a gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn unrhyw un o'r meysydd canlynol? Darparwch dystiolaeth ategol ym mhob achos.

- Troseddol
- Sifil (gan gynnwys Teuluoedd)
- Lloches
- Dim cymorth cyfreithiol ar gael (darparwch dystiolaeth ategol)

Gweler yr uchod.

5.3. Os bydd unrhyw effaith ar gymorth cyfreithiol, a fyddai costau'r cymorth hwn yn cynyddu neu'n gostwng (ac o faint)?

Prin unrhyw effaith.

6. Y Gwasanaethau Rheoli Troseddwyr a Charchardai

Effaith ar Wasanaethau Carchardai Ei Mawrhydi

6.1. A fydd y cynigion yn newid nifer y troseddwyr sy'n cael eu cadw yn y carchar (gan gynnwys ar remánd) neu ar gyfnod prawf (gan gynnwys dedfrydau cymunedol)? Os felly, rhowch amcangyfrif ynghyd â'r rhesymau dros yr amcangyfrif hwn, amcan o'r amserlen ar gyfer cyrraedd y nifer hwn o ddedfrydau, y dystiolaeth sy'n sail i hyn a ffynhonnell eich gwybodaeth.

Ni chafwyd unrhyw erlyniadau troseddol mewn perthynas â'r Cynnig yn Lloegr a byddem yn disgwyl i nifer y troseddwyr sy'n cael dedfryd dan glo o ganlyniad i'r darpariaethau yn y Bil hwn yn fach iawn am resymau a esboniwyd yn gynharach.

- 6.2. A yw'r cynnig yn creu, yn dileu neu'n newid trosedd bresennol â dedfryd o garchar neu gyfnod prawf, neu'n newid hynt y troseddwyr drwy'r gwasanaeth carchardai / prawf? Os ydyw, rhwch fanylion, gan gynnwys yr effaith ddisgwyledig ar y gwasanaethau prawf.

Dim effaith ar y gwasanaeth carchardai na'r gwasanaeth prawf gan mai ychydig iawn o erlyniadau, os o gwbl, fydd yn cael eu gweithredu bob blwyddyn.



7. Nodi'r Prif Effeithiau ar y System Gyfiawnder

7.1. Niferoedd a Chostau neu Arbedion (gallwch ymestyn yn ôl yr angen):-

DS ym mhob achos, dylech dybio ffigur blynyddol cyfartalog neu nodi'n glir os ydych yn ystyried cyfnod amser gwahanol. Os yw'n bosibl y byddai gwahaniaeth mawr rhwng y nifer cyfartalog ar gyfer y blynyddoedd cyntaf, nodwch wybodaeth ychwanegol yn y nodiadau isod.

Nodwch y llys neu'r tribiwnlys, neu wasanaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt.	Niferoedd (rhowch amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm)	Math (ee lle yn y carchar, gwrandawriad y tribiwnlys, cosb benodedig ac ati)	Amcangyfrif o'r costau neu'r arbedion blynyddol rheolaidd (amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) (£)	Amcangyfrif o'r costau sefydlu cychwynnol (£)	Rhagor o Wybodaeth
Troseddau a Sancsiynau	Rydym wedi ystyried y drosedd hon fel y mae'n ymwneud â maes arall ac rydym wedi dod i'r casgliad mai ychydig iawn o erlyniadau, os o gwbl, sy'n debygol. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol yn 2005.	Lle Mewn Carchar			
		Cosbau Sefydlog			
Cosbau Sifil	Prin iawn				

Nodwch y llys neu'r tribiwnlys, neu wasanaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt.	Niferoedd (rhowch amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm)	Math (ee lle yn y carchar, gwrandawriad y tribiwnlys, cosb benodedig ac ati)	Amcangyfrif o'r costau neu'r arbedion blynyddol rheolaidd (amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm) (£)	Amcangyfrif o'r costau sefydlu cychwynnol (£)	Rhagor o Wybodaeth
Gwasanaethau Llysoedd a Thriwiwnlysoedd Ei Mawrhydi	1 achos bob 6 mis	Gwrandawriad Tribiwnlys	Prin iawn		
Triwiwnlysoedd Cymru	Amherthnasol				
Cymorth Cyfreithiol	Prin iawn				
Nodiadau:-					

7.2. Gwasanaethau Rheoli Troseddwy a Charchardai (gallwch ymestyn yn ôl yr angen, llenwch yr isod dim ond os nad yw'r gosb uchaf yn ddirwy):

Trosedd	Cosb Uchaf	Nifer yr erlyniadau y flwyddyn (amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm)	Y gyfran debygol fydd yn cael dedfryd o garchar yn syth	Hyd cyfartalog y ddedfryd o garchar a roddir	Amcangyfrif o'r costau neu'r arbedion y flwyddyn (£) ¹ (rhowch amcangyfrif mewn rhifau a'r isafswm-uchafswm)
Dedfryd carchar		Dim effaith			
Nodiadau:					

Cofiwch fod rhaid i unrhyw gostau neu arbedion a nodwyd o ganlyniad i unrhyw newidiadau i'r system gyfiawnder / gwaith ychwanegol gael eu cynnwys yn yr asesiad ariannol o'ch deddfwriaeth.

¹ Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ystadegau ar "Prison cost per place and cost per prisoner:" – gweler <https://www.gov.uk/government/statistics/announcements/prison-cost-per-place-and-cost-per-prisoner-2017-to-2018>